**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **16 Hydref 2013**

**Amser:** **11:00 – 12:30**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: 2014 - 15**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwybodaeth ariannol gefndir i'r Pwyllgor ynghylch cynlluniau gwariant y Gweinidog Tai ac Adfywio, fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15.

2. Mae Atodiad A yn cyflwyno manylion y Gyllideb Ddrafft, yn ôl Cam Gweithredu ac yn ôl y Llinell Wariant yn y Gyllideb oddi mewn i bob Cam Gweithredu.

## Cefndir a Chrynodeb

3. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Tai ac Adfywio fel a ganlyn:

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb Atodol 2013-14 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2014-15 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw:** | | | |
| Polisi Tai | 150,736 | 146,615 | 147,874 |
| Cartrefi a Llefydd | 17,295 | 15,348 | 14,852 |
| Cynllunio | 7,874 | 6,806 | 6,806 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **175,905** | **168,769** | **169,532** |
| | | | |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Polisi Tai | 11,641 | 1,641 | 1,641 |
| Cartrefi a Llefydd | 278,384 | 349,729 | 347,329 |
| Cynllunio | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **290,025** | **351,370** | **348,970** |
| | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB Y TERFYN GWARIANT ARIANNOL*** | **465,930** | **520,139** | **518,502** |

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Cyflwynir y manylion isod.

**Newidiadau i'r gyllideb**

4. O gymharu â'r gyllideb atodol ar gyfer 2013-14, mae'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2014-15 a 2015-16 yn dangos bod cyfanswm dyraniad y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Tai ac Adfywio wedi cynyddu **£54.2m yn 2014-15** a **£52.5m yn 2015-16**. Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol:

| | **Cyllideb Ddrafft 2014-15 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2015-16 £'000** |
|---|---|---|
| **Refeniw:** | | |
| Cefnogi Pobl | -2,699 | -6,340 |
| Digartrefedd | -750 | 4,150 |
| Asiantaethau Gwella Cartrefi | -500 | -500 |
| Grant Rheoli Tai Cymdeithasol | -172 | -172 |
| Ymchwil Polisi a Gwerthuso | 50 | 0 |
| Adfywio | -1,997 | -2,443 |
| Cynllunio | -1,068 | -1,068 |
| | | |
| **Cyfanswm Refeniw** | **-7,136** | **-6,373** |
| | | |
| **Cyfalaf:** | | |
| Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy Safonol | 1,380 | -8,320 |
| Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Marchnad Agored Safonol | 69,000 | 71,000 |
| Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol | 695 | 5,995 |
| Sicrhau Tai Safonol | 270 | 270 |
| Rhaglen Eiddo Gwag | -10,000 | -10,000 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **61,345** | **58,945** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **54,209** | **52,572** |

**Blaenoriaethau'r Gyllideb**

5. Rwyf wedi cynnal adolygiad o'm cyllidebau er mwyn sicrhau bod y dyraniadau'n gwbl briodol i gyflwyno'r blaenoriaethau sydd wedi'u datgan yn y Rhaglen Lywodraethu. Rwyf wedi gorfod blaenoriaethu fy ngwariant refeniw i warchod rhywfaint ar y Rhaglen Cefnogi Pobl ac i sicrhau bod yr adnoddau refeniw sydd ar gael i mi'n cael eu cyfeirio tuag at y rhai yn ein cymdeithas sydd angen ein help fwyaf. Mae'r gwariant hwn hefyd yn allweddol er mwyn helpu i leihau'r pwysau ar gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy alluogi i bobl aros yn eu cartrefi yn hirach. Mae hyn yn creu llawer mwy na dim ond manteision ariannol yn sgil manteision y gefnogaeth y gall pobl ei chael gan eu bod yn gallu aros yn eu cymunedau'n hirach a pharhau i gyfrannu atynt.

6. Mae hyn wedi golygu fy mod wedi lleihau fy nghyllidebau refeniw Cynllunio ac Adfywio gyda gostyngiad mwy na sy'n gymesur er mwyn gwarchod yr ardaloedd Cefnogi Pobl sensitif hyn. Ynghyd â chefnogaeth ychwanegol o £5m o gronfeydd canolog, rwyf wedi gallu cyfyngu'r gostyngiad yn y gyllideb hon i ddim ond £2.7m yn 2014-15.

**Ymrwymiadau a Pholisïau Allweddol y Rhaglen Lywodraethu**

7. Mae gan yr Adran gylch gwaith eang iawn, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau ar dai, adfywio a swyddogaethau cynllunio.

8. Mae gan yr Adran nifer o brif nodau a adlewyrchir ledled y Rhaglen Lywodraethu ac mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dangos sut byddwn yn cyflawni yn 2014-15 a thu hwnt ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi a chreu'r amodau priodol ar gyfer swyddi a thwf. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cartrefi safonol, cynnes a diogel i fyw ynddynt, a gwasanaethau effeithiol i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i fyw'n annibynnol. Mae effaith rhai o'n hymyriadau yn y maes hwn yn debygol o gael ei theimlo yn y tymor hwy wrth i ni wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth gynllunio, ehangu ein stoc o dai cymdeithasol a chefnogi'r gwaith o adeiladu tai marchnad agored newydd.

9. Byddwn yn parhau i adfywio'r aneddiadau a'r cymunedau allweddol a hefyd ein trefi glan môr drwy ein polisi Adfywio newydd, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'.

<u>Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai</u>

10. Rydym yn gweithio i helpu gyda hybu swyddi a thwf yng Nghymru drwy gefnogi'r gwaith o adeiladu tai drwy gyfrwng y diwygiadau yn y system gynllunio i gyflymu'r dull o ryddhau tir. Rwyf wedi creu Uned Cartrefi Ychwanegol newydd i edrych ar faint yn rhagor o dir y sector cyhoeddus y gellir ei ryddhau. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnig cynllun peilot gwerth **£5m** i edrych ar sut gallwn ni ryddhau rhagor o dir i gefnogi tai fforddiadwy.

11. Cyhoeddais yn ddiweddar, ar 24 Medi, y Grant Cyllid Tai. Caiff ei adlewyrchu yn y gyllideb ddrafft gan y **Grant Cyllid Tai gwerth £4m i gefnogi buddsoddiad cynyddol mewn tai cymdeithasol** i gyflenwi mwy na 1,000 o eiddo newydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

12. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnig **£5m pellach ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol yn 2014-15 a £15m pellach yn 2015-16** i adeiladu mwy o dai fforddiadwy. Mae hyn yn dod â chyfanswm cyllideb y Grant Tai Cymdeithasol i £53.8m yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2014-15. Defnyddir y Grant Tai Cymdeithasol i gefnogi blaenoriaethau tai strategol awdurdodau lleol, sy'n golygu bod yr holl gynlluniau a gyllidir gan y grant wedi cael blaenoriaeth gan yr awdurdod lleol o ran yr angen am dai h.y. rydym yn cael sicrwydd bod ein grant yn cael ei ddefnyddio i adeiladu'r mathau priodol o gartrefi yn y lleoliadau cywir. O ran cost, mae'r cynlluniau i gyd yn cael eu hasesu yn erbyn ein meini prawf gwerth am arian h.y.

Canllawiau Cost Derbyniol ac mae'n ofynnol i'r cynlluniau i gyd fodloni ein safonau dylunio (Gofynion Ansawdd Datblygu).

13. Mae cefnogaeth i dai'r farchnad agored hefyd yn elfen allweddol sy'n cyfrannu at dwf economaidd yng Nghymru. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynigion ar gyfer cyllid o **£69m ar gyfer y cynllun Cymorth Prynu Cymru** yn 2014-15, gan godi i £71m yn 2015-16, a fydd yn ysgogiad allweddol i'r diwydiant adeiladu tai yng Nghymru ac yn creu swyddi ac yn hybu twf economaidd. Mae gwerthuso a gwireddu manteision wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynllun.

<u>Gwella Ansawdd Tai</u>

14. Mae sicrhau bod gan bobl dai cynnes a diogel yn gyfraniad allweddol y gall fy mhortffolio i ei wneud at drechu tlodi yng Nghymru. Rwyf i wedi gallu parhau i fuddsoddi **£108m y flwyddyn ar gyfer y Lwfans Atgyweiriadau Mawr a'r Gronfa Gwaddoli**. Mae'r gyllideb hon yn cyllido atgyweiriadau mawr ar gyfer tai awdurdodau lleol a thaliadau gwaddoli ar gyfer tai a arferai fod yn dai awdurdodau lleol ac sydd wedi trosglwyddo i landlordiaid trosglwyddo stoc newydd. Bydd y ddwy ffrwd gyllido yma'n helpu i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru, a'u hamcan yn fras yw sicrhau bod y stoc o dai cymdeithasol yng Nghymru'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r gwaith hwn hefyd yn helpu i greu a chefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, a chefnogi'r economi.

15. Cynhelir Gwerthusiad o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr bob blwyddyn (gydag adolygiad ganol y flwyddyn) sy'n cynnwys craffu ar gynlluniau busnes 30 blynedd sy'n dangos dyddiad cyflawni ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae ein Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn comisiynu adborth ystadegol monitro ar gynnydd o ran cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru, a gyhoeddir yn flynyddol gennym ym mis Hydref. Hefyd, rydym newydd roi'r contract ar gyfer gwerthuso'r Safon ym mis Mehefin 2013 i Altair Consultants a byddwn yn adrodd yn ôl yn gynnar yn 2014. Mae cwmpas y prosiect yn cynnwys adolygu sut mae landlordiaid yn barnu ac yn cyfathrebu eu bod yn gweithredu er mwyn cyrraedd y Safon, neu wedi ei chyrraedd, yn unol â'r cyfarwyddyd, a'r goblygiadau cost ac ymarferoldeb i landlordiaid sy'n gorfod rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid am gydymffurfiaeth eu cartrefi â'r Safon.

<u>Gwella Gwasanaethau Tai</u>

16. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn bolisi allweddol sy'n darparu cefnogaeth a chymorth i rai o'r bobl mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Pennwyd amodau ariannol heriol iawn ar ein cyfer er mwyn cyflawni ar gyfer pobl Cymru ond, er gwaethaf hyn, rwyf yn gallu buddsoddi **£133m y flwyddyn** mewn darparu cefnogaeth gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed drwy gyfrwng y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae effaith y diwygiad lles a'r pwysau ar ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn golygu ei bod yn allweddol ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n galluogi i bobl aros yn eu cartrefi'n hirach. Rydym yn gallu cefnogi mwy na 50,000 o bobl y flwyddyn drwy gyfrwng y rhaglen. Adolygodd yr Athro Syr Mansel Aylward y rhaglen grantiau yn 2010 ac mae swyddogion yn adolygu'r

gwaith o weithredu'r argymhellion yn 2013-14. Mae'r rhaglen yn defnyddio bwrdd cenedlaethol i gynghori'r Gweinidog ar effeithiolrwydd y rhaglen ac mae'r bwrdd yn monitro trefniadau comisiynu rhanbarthol fel rhan o'i gylch gwaith. Ategir hyn gan Dîm Llywodraethu arbenigol sy'n monitro trefniadau comisiynu lleol a rhanbarthol. Rwyf hefyd yn ystyried datblygu ymchwil hydredol pellach i effeithiolrwydd y rhaglen er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dargedu cyllid ble mae ei angen fwyaf a bod y rhaglen yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae'r bobl agored i niwed sy'n defnyddio'r cyllid eu hangen.

17. Mae atal digartrefedd yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac er bod y gyllideb wedi cael ei gostwng £0.75m rydym yn dal i allu buddsoddi **£6.4m yn y maes allweddol hwn.** Bydd y cyllid hwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i elfennau digartrefedd y Bil Tai. Adolygwyd y Grant Digartrefedd gan swyddogion yn 2013/14 er mwyn sicrhau ei fod yn unol â pholisïau a deddfwriaethau newydd. Mae'r Gweithgor Strategaethau Digartrefedd, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allanol o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector gwirfoddol ac Awdurdodau Lleol, yn monitro'r gwaith o weithredu'r cynllun digartrefedd 10 mlynedd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cadw ar y trywydd iawn ac yn cyflawni er lles y bobl agored i niwed hyn.

18. Rydym wedi parhau i warchod ein buddsoddiad mewn galluogi i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain drwy barhau â'n buddsoddiad cyfalaf yn y Rhaglen Addasiadau Brys, sef **£1.6m** y flwyddyn. Hefyd rydym wedi gallu gwarchod y cyllid refeniw rydym yn ei ddarparu i'r asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n cyflawni'r gwaith hwn, ac i'r gwasanaethau craidd eraill cysylltiedig â chyngor, sef **£4.1m**. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn 2013-14 er mwyn sicrhau bod ein gwaith gyda phartneriaid cyflawni'n cael ei reoli a'i lywio'n effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian.

<u>Adfywio canol trefi a threfi glan môr</u>

19. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i'n rhaglen adfywio ar gyfer 2014-15 drwy gyfrwng Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Bydd ein strategaeth newydd yn golygu ein bod yn canolbwyntio ein hymyriadau mewn nifer penodol o gymunedau trefol ac arfordirol ledled Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei dargedu at aneddiadau allweddol ledled Cymru ac yn cael ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad sylweddol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith yr ymyriadau y byddwn yn eu gwneud. Cefnogir y dull newydd hwn o weithredu gan gyllid o **£30m** y flwyddyn am dair blynedd. Mae monitro a gwerthuso'n elfen allweddol o sut byddwn yn gweinyddu'r polisi newydd hwn er mwyn sicrhau ein bod yn gwario ein hadnoddau cyfyngedig yn y meysydd sydd eu hangen fwyaf ac mewn ffordd sy'n sicrhau effaith orau posib ein hymyriadau. Roedd trefniadau monitro a gwerthuso yn un o'r gofynion allweddol a ddefnyddiwyd wrth benderfynu pa geisiadau oedd yn llwyddiannus ac yn mynd drwodd o gam un.

20. Hefyd rydym wedi ymrwymo i'r saith ardal adfywio strategol fu'n ganolbwynt i'n hymyriadau adfywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Byddwn yn buddsoddi **£5m pellach i anrhydeddu ein hymrwymiadau** i'r ardaloedd hyn ac yn sicrhau bod yr holl brosiectau yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn cael eu cwblhau.

21. Rydym hefyd yn cefnogi nifer o ymyriadau adfywio allweddol, fel Awdurdod Harbwr Caerdydd, ac mae'r gyllideb ddrafft yn dynodi y byddwn yn gwario mwy na **£6m i anrhydeddu ein hymrwymiad** i'r gweithgareddau hyn yn 2014-15.

**Gwariant Ataliol**

22. Fy mhrif faes o ran gwariant ataliol yw'r Rhaglen Cefnogi Pobl ac mae'r gyllideb ddrafft yn dangos fy mod wedi rhoi blaenoriaeth i'r maes gwariant hwn ac yn darparu **£133.8m** o gyllid yn 2014-15, er gwaetha'r setliad heriol gan Lywodraeth y DU. Dyma raglen allweddol sy'n galluogi i bobl aros yn eu cartrefi yn hirach ac sy'n lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

23. Mae'r cyllid yn y gyllideb ddrafft ar gyfer **Byw'n Annibynnol o £4.6m** yn 2014-15 yn wariant ataliol hefyd. Mae'r cyllid hwn yn darparu'r addasiadau ffisegol y mae pobl eu hangen er mwyn aros yn eu cartrefi, heb orfod mynd i ysbytai neu gartrefi gofal.

24. Fel cyfanswm, mae'r gyllideb ddrafft yn dynodi cynigion i wario 82% o'm cyllideb refeniw ar feysydd gwariant ataliol.

**Deddfwriaeth**

<u>Y Bil Tai</u>

25. Mae'n fwriad cyflwyno'r Bil Tai i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddarach yr hydref hwn, ar gyfer craffu arno. Pan gyflwynir y Bil, bydd Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd ag ef hefyd (a fydd yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol) i ddatgan goblygiadau ariannol yr holl ddarpariaethau a geir yn y Bil.

<u>Bil Diwygio Cynllunio</u>

26. Bydd goblygiadau ariannol ehangach y Bil Diwygio Cynllunio yn cael sylw yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a gyhoeddir pan gyflwynir y Bil i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn toriad yr haf yn 2014. Fodd bynnag, bydd y Papur Ymgynghori sydd i gael ei gyhoeddi fis Rhagfyr yn crybwyll goblygiadau ariannol posib y diwygiadau.

27. Pwrpas y Bil Diwygio Cynllunio a'r ymgynghoriad yw ystyried system gynllunio sy'n gadarnhaol ei hagwedd ac yn galluogi datblygu, gan helpu gyda chyflwyno mewn ffordd gynaliadwy y cartrefi, y swyddi a'r seilwaith y mae Cymru eu hangen.

28. I helpu gyda chyflawni'r nod hwn, bydd y Bil Diwygio Cynllunio drafft a'r Papur Ymgynghori yn ailddiffinio, yng ngoleuni datganoli, swyddogaethau a chyfrifoldebau unigol y sefydliadau sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau cynllunio, ac yn gwneud gwelliannau i'r cynllun datblygu a'r

system rheoli datblygiad er mwyn gwella perfformiad a gwireddu llawn botensial i helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

Rheoliadau Adeiladu

29. Mae trosglwyddo Pwerau Rheoliadau Adeiladu i Gymru ym mis Rhagfyr 2011 wedi arwain at ofynion cynyddol ar Lywodraeth Cymru yng nghyswllt y Tîm Rheoliadau Adeiladu.

30. Mae'r Tîm Rheoliadau Adeiladu yn gyfrifol am lu o swyddogaethau, sy'n cynnwys iechyd, diogelwch a lles y bobl mewn adeiladau ac o'u hamgylch, cyflwyno'r Bil Diogelwch Tân Domestig (Cymru), y mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi cytuno i'w weithredu fel blaenoriaeth yn seiliedig ar ewyllys y Cynulliad, a sicrhau bod y Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru wedi'u diweddaru ac yn addas i bwrpas.

31. Fel arwydd o'r costau cysylltiedig â datganoli'r Rheoliadau Adeiladu, mae'r adolygiad Rhan L cyfredol a'r gwaith o ddatblygu'r Bil Diogelwch Tân Domestig wedi derbyn dyraniad cyllidebol o fwy na £3.2 miliwn ers 2010, gan gynnwys costau staff.

32. Rheolir y cyllid ar gyfer rheoliadau adeiladu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod er mwyn sicrhau cyflawni agenda polisi Llywodraeth Cymru. Mae ymgorffori'r rheoliadau adeiladu yn yr Is-adran Gynllunio yn ddiweddar yn helpu gyda rheoli'r gyllideb.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

33. Mae cyllidebau'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys credyd o £71m yn 2014-15 – gan gynrychioli'r swm, a gafodd ei gyfrif ar sail fformiwla, y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol Cymru ei ad-dalu i'r Trysorlys mewn perthynas â system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Yn Lloegr, mae'r Awdurdodau Lleol wedi talu am ddod allan o'r system. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar strategaeth ymadael a fydd yn sicrhau arbedion sylweddol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn llunio'r manylion yn derfynol gyda Thrysorlys EM.